Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer


Clwb Enfys Penmaenmawr

Ysgol Pencae
Ffordd Craiglwyd
Penmaenmawr
LL34 6YG

This report is also available in English


Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Adroddiad ar gael hefyd ei



Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

26/06/2019



Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2019.
Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk
Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Graddau	Yr hyn y mae'r graddau yn ei olygu
Rhagorol	Dyma wasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant.
Da	Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol.
Digonol	Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant.
Gwael	Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle mae gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyflwyno hysbysiad diffyg cydymffurfio.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Disgrifiad o'r gwasanaeth

Lleolir Clwb Enfys yn Ysgol Pencae, Penmaenmawr yn Llanfairfechan. Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru ar gyfer 71 o blant o dan 12 oed. Grainne Mc Donagh yw'r unigolyn cyfrifol, a Trudi Roberts a Julie Everley yw'r personau â chyfrifoldeb. Mae'r gwasanaeth yn rhedeg bob dydd yn ystod y tymor rhwng 3pm a 6pm. Saesneg yw prif iaith y gwasanaeth. Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg.

Crynodeb o'n Canfyddiadau

Thema	Gradd
Llesiant	Da
Gofal a Datblygiad	Da
Yr Amgylchedd	Da
Arwain a Rheoli	Da

1. Asesiad cyffredinol

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Mae'r plant yn hapus, yn cael eu gwerthfawrogi ac yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'i gilydd. Maent yn cael budd o amrywiaeth o weithgareddau y gallant eu dewis eu hunain. Mae'r amgylchedd yn un ysgogol â digon o adnoddau i chwarae a dysgu. Maent yn cael gofal gan staff sy'n gweithio yn yr ysgol hefyd ac yn deall sut i'w cadw'n ddiogel ac sy'n hyrwyddo chwarae yn yr awyr agored yn ddyddiol.
Mae'r arweinwyr yn goruchwylio'r gwasanaeth yn briodol. Maent yn defnyddio adborth i gynllunio ar gyfer gwelliannau ac mae ganddynt gydberthnasau da â'r rhieni.


2. Gwelliannau

Mae rhywfaint o gyfarpar newydd wedi'i brynu i'r plant er mwyn rhoi mwy o amrywiaeth o weithgareddau iddynt. Mae'r weithdrefn gwagio adeg tân wedi'i newid, gyda mwy o fanylion wedi'u hychwanegu ati.
Bellach, mae ffurflenni diweddaru contract/cofrestru ar gael i'r rhieni fel y gallant adolygu a diwygio'u manylion. Mae'r Polisi Amddiffyn Plant wedi'i ddiweddaru gyda mwy o wybodaeth wedi'i hychwanegu ato fel bod y staff yn gwybod beth i'w wneud ac â phwy i gysylltu. Mae'r holl bolisïau a gweithdrefnau wedi'u hadolygu gyda'r dyddiad adolygu newydd wedi'i ychwanegu, mae hyn yn cynnwys y llawlyfr rhiant/gofalwr. Mae'r polisi cwynion wedi'i ddiweddaru i fod yn haws i'w ddefnyddio gydag amserlenni cywir. Mae poster wedi'i greu sy'n cynnwys yr holl rifau cyswllt perthnasol, megis gwasanaethau cymdeithasol, AGC a'r NSPCC. Bydd hyn yn sicrhau bod pawb yn gwbl ymwybodol o'r weithdrefn gan gynnwys y staff, y rhieni a'r ymwelwyr. Mae'r ffurflen cofnodi damweiniau/digwyddiadau wedi'i hadolygu er mwyn cynnwys mwy o fanylion. Mae'r cynllun gweithredol wedi'i adolygu a'i ddiweddaru. Mae fformat newydd yr adolygiad o Ansawdd y Gofal yn cysylltu â'r fframwaith

arolygu. Mae cyrsiau cymorth cyntaf wedi'u trefnu ar gyfer mis Medi. Mae ffeiliau'r staff wedi'u diweddaru a'u hadolygu i gynnwys manylion DBS a fydd ar gael ar y safle.

3. Gofynion ac argymhellion

Mae argymhellion wedi cael eu gwneud mewn perthynas â gofal a datblygiad, ac arwain a rheoli.



1. Llesiant Da

Crynodeb

Gall y plant wneud dewisiadau a gwrandewir arnynt. Maent yn siarad yn hyderus ac maent yn hapus ac wedi ymlacio. Maent yn rhyngweithio'n dda â'i gilydd a'r staff ac maent yn ymddwyn yn dda. Mae'r plant yn mwynhau amrywiaeth dda o weithgareddau ac yn ymddiddori yn yr hyn y maent yn ei wneud.

Ein canfyddiadau

Roedd y plant yn gwneud penderfyniadau ac roeddent yn gwybod y byddai eu lleisiau yn cael eu clywed. Roedd y plant yn gwneud penderfyniadau yn hyderus am yr hyn roeddent yn chwarae ag ef ac yn symud yn rhydd ac yn hapus rhwng y gweithgareddau a oedd yn ennyn eu diddordeb, megis chwarae yn yr ardal adeiladu. Roeddent yn ddysgwyr hyderus a fyddai'n ymateb yn briodol pan fyddai rhywun yn siarad â nhw. Roedd llawer o'r plant yn cymryd amser i siarad â ni ac roeddent yn esbonio'r hyn roeddent yn ei wneud. Roedd y plant yn ddiogel oherwydd y caiff eu barn ei gwerthfawrogi a'i pharchu.

Roedd y plant yn teimlo'n ddiogel ac yn hapus. Roeddent yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, felly roeddent yn setlo'n dda ac yn gyflym ar ôl cyrraedd y clwb ac yn mynegi eu mwynhad. Roeddent yn gyfarwydd â'r drefn ddyddiol a oedd yn rhoi digon o gyfleoedd iddynt gael profiad o amgylcheddau gwahanol a chwarae yn yr awyr agored yn rheolaidd. Roedd y plant yn gallu meithrin cydberthnasau emosiynol cadarnhaol â'r staff ac â'i gilydd. Gwnaethant chwarae'n hapus ochr yn ochr â'i gilydd wrth chwarae gemau pêl a chwarae cuddio a sgwrsio'n ddidrafferth yn ystod amser byrbryd. Gwelsom blant a oedd yn cymryd rhan yn llawn brwdfrydedd.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Roedd y plant yn rhyngweithio'n dda ac roeddent yn cael hwyl. Roeddent yn gweithio'n dda gyda'r staff ac roeddent yn dilyn cyfarwyddiadau. Er enghraifft, ymatebodd y plant yn briodol ar ôl cael eu hatgoffa gan y staff i beidio â defnyddio cyfarpar y gampfa. Roedd y plant yn gwrando'n ofalus gan helpu yn ystod amser tacluso er mwyn sicrhau bod y teganau a'r adnoddau yn cael eu rhoi i gadw'n ddiogel. Roedd y plant yn uchel eu cymhelliant ac yn hyderus wrth chwarae a dysgu gan gymryd rhan weithredol yn yr amrywiaeth o weithgareddau a oedd ar gael iddynt. Roedd y plant yn cymryd rhan gadarnhaol mewn gweithgareddau ac roeddent yn awyddus i ddangos i ni'r hyn roeddent yn ei wneud gan ddweud wrthym yn hyderus cymaint roeddent yn mwynhau dod i'r clwb.

Roedd gan y plant ddiddordeb yn yr amrywiaeth o brofiadau chwarae a gynigir iddynt ac roeddent yn eu mwynhau. Fodd bynnag, nid oedd gan y plant gyfleoedd digonol i fod yn annibynnol yn ystod amser byrbryd, megis gweini'r bwyd i'w hunain. Prin y cawsai'r plant gyfle i ddatblygu'u hannibyniaeth. Roedd y plant yn gallu gwneud pethau drostynt eu hunain. Er enghraifft, roeddent yn golchi eu dwylo'n annibynnol.

2. Gofal a Datblygiad Da

Crynodeb

Mae cydberthynas agos rhwng y staff a'r plant ac maent yn eu hadnabod yn dda. Mae'r staff yn sicrhau y caiff y plant eu cadw'n ddiogel ac maent yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw yn gyffredinol. Mae'r staff yn darparu amrywiaeth dda o weithgareddau sy'n diwallu anghenion unigol y plant. Maent yn annog rhyngweithio cadarnhaol ac yn fodelau rôl da i'r plant.

Ein canfyddiadau

Roedd y staff yn meddu ar ddealltwriaeth dda o sut i gadw'r plant yn ddiogel. Roeddent yn deall y polisïau a'r gweithdrefnau mewn perthynas â diogelu'r plant. Roedd y staff wedi cwblhau'r hyfforddiant perthnasol a oedd yn eu galluogi i ddarparu triniaeth cymorth cyntaf. Cwblhawyd cofnodion damweiniau a digwyddiadau yn briodol. Roedd y staff yn cadw'r amgylchedd yn rhydd o beryglon ac yn hyrwyddo diogelwch y plant drwy roi cefnogaeth unigol yn ôl yr angen. Roedd y staff yn hyrwyddo gweithgarwch corfforol yn yr awyr agored ac yn darparu cyfleoedd da i'r plant fod yn egnïol. Roedd y staff yn cynnal asesiadau risg. Er enghraifft, nid oeddent yn gadael i'r plant chwarae ar gyfarpar y gampfa nac yn agos i'r ffens wrth ymyl y cae. Rhoddodd y staff tortillas wedi'u llenwi i'r plant fel byrbryd, fodd bynnag, yn gyffredinol, dylid asesu'r bwyd a'r diod a weinir i'r plant er mwyn ystyried y canllaw maeth newydd i ddarparwyr gofal plant.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Roedd y staff yn rheoli'r rhyngweithio'n dda. Roeddent yn rheoli ymddygiad mewn ffordd gyson ac felly roedd y plant yn cydweithredu ac yn ymddwyn yn dda. Roedd y staff yn eistedd gyda'r plant neu ger y plant wrth iddynt chwarae, gan gynnig arweiniad ac anogaeth. Roedd y staff yn gyfarwydd â'r plant yn eu gofal ac roedd yn amlwg eu bod wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol gan fod y plant yn gyfforddus yn mynd atynt. Gwnaethant siarad â'r plant yn addfwyn ac roedd yr amgylchedd yn amlwg yn ddigynnwrf ac yn hapus. Roedd gan y staff gydberthynas gadarnhaol â'r plant ac roeddent yn rhyngweithio'n gynnes â nhw.

Roedd y staff yn darparu amrywiaeth o weithgareddau, adnoddau a chyfleoedd a oedd yn addas ar gyfer oedran a chamau datblygu'r plant sy'n mynychu, ac roeddent yn ystyried eu diddordebau. Roedd y staff yn hyrwyddo annibyniaeth y plant drwy adael iddynt symud yn rhydd o gwmpas yr amgylchedd yn defnyddio'r adnoddau. Fodd bynnag, methwyd sawl cyfle i wneud hynny yn ystod amser byrbryd. Er enghraifft, nid oeddent yn gallu gweini'r bwyd i'w hunain na gosod a chlirio'r byrddau.

3. Yr Amgylchedd Da

Crynodeb

Mae'r arweinwyr yn ymrwymedig i sicrhau bod y plant yn cael gofal mewn amgylchedd croesawgar, diogel ac addas. Mae'r arweinwyr yn darparu casgliad o adnoddau sy'n hyrwyddo chwarae a dysgu'r plant ac mae cynllun y lleoliad yn annog annibyniaeth y plant. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod systemau ar waith ar gyfer gwaith cynnal a chadw rheolaidd ac maent yn nodi ac yn mynd i'r afael â pheryglon yn gyflym.

Ein canfyddiadau

Roedd gan yr arweinwyr wiriadau effeithiol ar waith a oedd yn cael eu cynnal yn ddyddiol i sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel ac yn rhydd o beryglon cyn i'r plant gyrraedd. Roedd yr amgylchedd yn cael ei gadw'n lân ac yn rhydd o beryglon ac roedd yr holl ardaloedd yn daclus. Cofnodwyd unrhyw ymwelwyr â'r gwasanaeth ac roedd y drysau ar glo i atal mynediad heb awdurdod.

Roedd digon o le dan do ac yn yr awyr agored i symud o gwmpas a bod yn egnïol ac roedd ardaloedd o ddiddordeb yn cael eu gosod. Roedd y blychau teganau yn hawdd i'w cyrraedd i'r plant. Roedd cyfleusterau toiled a golchi dwylo addas a oedd yn hyrwyddo annibyniaeth y plant. Roedd ardaloedd diffiniedig a digon o adnoddau ynddynt ac roedd gwaith crefft y plant wedi'i arddangos, gan olygu bod yr amgylchedd yn gartrefol ar eu cyfer. Roedd yr ardal awyr agored gaeedig a oedd yn cael ei rhannu â'r ysgol yn darparu amgylchedd chwarae a dysgu effeithiol i'r plant. Roedd yr amgylchedd yn olau, yn agored ac yn darparu amrywiaeth o gyfleoedd i'r plant ddarganfod pethau, a oedd yn eu hannog i ddysgu drwy chwarae, yn enwedig yn y gegin fwd.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Roedd yr arweinwyr yn sicrhau bod yr adnoddau a'r offer yn lân, mewn cyflwr da ac yn gweddu i oedrannau a chamau datblygu'r plant. Roedd y dewis o adnoddau yn annog y plant i ddilyn eu diddordebau a datblygu sgiliau gwahanol. Er enghraifft, roedd y plant yn datblygu eu sgiliau pêl yn iard yr ysgol. Gwelsom blant yn gweithio gydag adnoddau o ansawdd da ac roedd byrddau a chadeiriau addas yn galluogi pawb i eistedd gyda'i gilydd er mwyn bwyta byrbryd neu wneud gweithgareddau pen bwrdd, fel gemau. Roedd yr adnoddau yn amrywiol ac yn ysgogol ac roedd yr arweinwyr yn sicrhau bod gan y plant amrywiaeth o adnoddau'r cartref ac adnoddau naturiol y gellid eu defnyddio mewn gwahanol weithgareddau.

4. Arwain a Rheoli Da

Crynodeb

Mae'r arweinwyr yn deall eu rolau a'r hyn sydd ei angen er mwyn rheoli'r gwasanaeth yn dda. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod gwaith papur yn cael ei gadw mewn trefn. Mae'r arweinwyr yn cefnogi'r staff ac yn eu hannog i ddilyn cyrsiau sy'n berthnasol i ofal y plant. Mae partneriaethau cadarnhaol â'r rhieni, y Cylch a'r ysgol. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod rhywfaint o systemau ar waith i fonitro'r gwasanaeth.

Ein canfyddiadau

Roedd yr arweinwyr yn deall eu rolau wrth reoli'r gwasanaeth. Gwnaethant sicrhau bod datganiad o ddiben y gwasanaeth yn gywir a bod y rhieni'n cael y wybodaeth sydd ei hangen arnynt er mwyn penderfynu a yw'r gwasanaeth yn diwallu eu hanghenion nhw a'u plant. Gwnaeth yr arweinwyr sicrhau bod y broses o gadw cofnodion yn gyfredol. Roedd presenoldeb y staff a'r plant yn cael ei nodi'n briodol.

Roedd yr arweinwyr wedi cwblhau adolygiad blynyddol a lluniwyd holiaduron i'r rhieni, yn gofyn am adborth mewn perthynas ag agweddau ar redeg y clwb ar ôl ysgol. Roedd yr arweinwyr yn ystyried safbwyntiau'r plant drwy eu gwylio a siarad â'r plant am yr hyn yr hoffent ei wneud. Gwnaethom siarad â'r rhieni a ddywedodd wrthym eu bod yn hapus gyda'r gwasanaeth. Dywedodd y staff wrthym am y newidiadau yr oeddent wedi'u gwneud drwy ad-drefnu ardaloedd megis yr ardal adeiladu a'r ardal dawel, a sut roedd hyn wedi gwella chwarae a oedd o fudd i'r plant.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Yn gyffredinol, roedd yr arweinwyr yn dilyn prosesau recriwtio diogel ac amserol ond roedd angen sicrhau bod yr holl gofnodion a'r wybodaeth ar gael yn hawdd. Er enghraifft, nid oedd gwybodaeth am y staff ar gael i'w harchwilio am ei bod yn cael ei chadw yn y brif feithrinfa. Dylai gwybodaeth sylfaenol gael ei chadw ar y safle, megis cadarnhad o wiriadau DBS a thystiolaeth o gymwysterau. Roedd yr arweinwyr yn sicrhau eu bod yn cefnogi ac yn annog y staff i dderbyn hyfforddiant a dilyn cyrsiau perthnasol eraill.

Roedd yr arweinwyr wedi meithrin partneriaethau da â'r rhieni a'r ysgol. Roedd hyn hefyd yn wir am y Cylch y mae'r gwasanaeth yn rhannu'r safle dan do a rhywfaint o'i gyfarpar ag ef. Roedd y rhieni yn darparu gwybodaeth ysgrifenedig am eu plant cyn dechrau yn y lleoliad ac roedd yr arweinwyr yn sicrhau eu bod yn rhannu'r manylion hyn â'r staff mewn perthynas ag anghenion a dewisiadau pob plentyn. Roedd yr arweinwyr yn gweithio'n agos gyda'r rhieni a'r gweithwyr proffesiynol er mwyn sicrhau bod y plant sydd ag anghenion unigol yn derbyn y gofal sydd ei angen arnynt. Roedd yr arweinwyr yn sicrhau bod eu partneriaeth â'r ysgol o fudd i'r plant drwy rannu ardaloedd awyr agored megis y cae a'r gegin fwd.

5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

5.2 Argymhellion ar gyfer gwella;

- Sicrhau bod y plant yn cael mwy o gyfleoedd i wneud pethau drostynt eu hunain amser byrbryd;
- ystyried y canllaw maeth newydd i ddarparwyr gofal plant wrth baratoi bwyd a diod i'r plant;
- cadw rhywfaint o wybodaeth berthnasol am y staff yn ddiogel ar y safle fel ei bod ar gael i'w harchwilio.

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad dirybudd llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen o arolygiadau. Ymwelodd un arolygydd â'r gwasanaeth ar 26 Mehefin 2019 rhwng 3.00 a 6pm. Gwnaeth y person â chyfrifoldeb gysylltu ag AGC ar ôl yr arolygiad i roi gwybod yr aed i'r afael â'r argymhellion. Gwnaethom y canlynol:

- edrych ar sampl o ddogfennaeth a pholisïau
- arsylwi ar ymarfer er mwyn nodi tystiolaeth o ymgysylltiad y plant a'r gofal a ddarperir gan yr ymarferwyr;
- siarad â'r plant, yr ymarferwyr a'r rhieni;
- archwilio'r ardaloedd a ddefnyddir gan y plant a'r adnoddau ar ddiwrnod ein harolygiad;
- rhoi adborth i'r person â chyfrifoldeb ar ein canfyddiadau a'r meysydd i'w gwella ar 8 Gorffennaf 2019.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan:

www.arolygiaethgofal.cymru

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

Y math o ofal a ddarperir	**Gofal Dydd Plant** **Gofal y Tu Allan i'r Ysgol**
Unigolyn Cyfrifol	**Grainne Mc Donagh**
Person â chyfrifoldeb	**Trudi Roberts** **Julie Everley**
Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd	**45**
Ystod oedran y plant	**0 dan 12 oed**
Oriau agor	**3pm i 6pm**
Iaith weithredol y gwasanaeth	**Saesneg**
Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	**22 Mawrth 2016**
Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn	**26 Mehefin 2019 a rhoddwyd adborth pellach i'r person â chyfrifoldeb ar 8 Gorffennaf**
A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?	**Nac ydy**
A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?	**Nac ydy**
A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?	**Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Argymhellwn y dylai'r darparwr gwasanaeth ystyried canllawiau strategol olynol 'Mwy na Geiriau' Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau Cymraeg mewn gofal cymdeithasol.**
Gwybodaeth Ychwanegol:	

Adroddiad terfynol heb ei gyhoeddi

Dyddiad Cyhoeddi 11/09/2019